COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

**Ymarfer Hap-samplu**

**gan y**

**Panel Craffu**

# Adolygiad o Achosion Meddiant Cyffuriau Rheoledig (Canabis) ac Achosion Troseddau Rhywiol Ieuenctid

**(Hydref 2017 – Tachwedd 2018)**

**Gwarediadau y tu allan i'r Llys**

**Canfyddiadau ac Adborth Aelodau'r Panel**

**Ionawr 2019**

## Cynnwys

1.0 Trosolwg ........ **Error! Bookmark not defined.**
2.0 Cefndir, Diben a Methodoleg ........ **Error! Bookmark not defined.**
2.1 Data Cefndir ........ **Error! Bookmark not defined.**
3.0 Cymeradwyaeth Cadeirydd y Panel ........ **Error! Bookmark not defined.**
4.0 Camau a gymerwyd yn dilyn cyfarfod blaenorol y Panel ........ 5
5.0 Ystyried Achosion Troseddau Rhywiol – drwgdybiedigion ifainc ........ 5
5.1 Sylwadau ........ 5
6.0 Ystyried Achosion Meddiant Cyffuriau Rheoledig (Canabis)– drwgdybiedigion sy'n oedolion ........ 8
6.1 Sylwadau ........ 9
7.0 Asesiadau'r Panel hyd yn hyn ........ 11
7.1 Arfer da ........ 14
7.2 Meysydd sydd angen Gwelliant ........ 14
8.0 Ffocws y Panel yn y dyfodol ........ 15
9.0 Materion eraill yn codi ........ 15

## 1.0 Trosolwg

Mewn cyfarfod o Banel Craffu Gwarediadau y tu allan i'r Llys Dyfed-Powys a gynhaliwyd ar 28 Ionawr 2019, adolygodd yr aelodau ddetholiad o achosion meddiant cyffuriau rheoledig (canabis) yr ymdriniwyd â hwy drwy roi Hysbysiad Cosb Benodedig ac amrediad o achosion troseddau rhywiol lle'r oedd y troseddwr yn iau na 18 oed.

Ystyriodd y Panel gyfanswm o 23 achos. Roedd un deg pedwar yn ymwneud ag achosion troseddau rhywiol ieuenctid a naw yn ymwneud ag achosion meddiant cyffuriau rheoledig (canabis) oedolion.

## 2.0 Cefndir, Diben a Methodoleg

Mae Aelodau'r Panel ar y cyd yn cytuno maes ffocws ar gyfer pob cyfarfod. Pythefnos cyn pob cyfarfod, maent yn derbyn ffeiliau achos perthnasol a ddewiswyd ar hap gan Gadeirydd y Panel. Yna mae'r Panel yn cyfarfod i drafod pob achos a, lle y bo'n bosib, dod i benderfyniad ynghylch priodoldeb y gwarediadau. **Wrth benderfynu pa gategori mae'r achos yn perthyn iddo, mae'r Panel yn ystyried y meini prawf canlynol:**


- Barn ac adborth gan y dioddefydd a'r troseddwr;
- Cydymffurfiaeth â pholisi'r heddlu;
- Sail resymegol dros y penderfyniad a'r canlyniad;
- Effaith debygol ar y gymuned ;
- Amgylchiadau a difrifoldeb y drosedd; a
- Dewisiadau arall posib a allai fod ar gael.


Mae'r Panel yn trafod pob achos ac yn eu categoreiddio fel un o'r canlynol:


- Defnydd priodol ac yn gyson â'r polisi;
- Defnydd priodol gydag amheuon gan Aelodau'r Panel;
- Defnydd amhriodol neu ddiffyg cysondeb â'r polisi; a
- Panel yn methu â chyrraedd canlyniad.

## 2.1 Data cefndir

Mae'r graffiau canlynol yn dangos y newid dros amser o ran defnydd Heddlu Dyfed-Powys o wahanol fathau o waredidadau y tu allan i'r llys.






## 3.0 Cymeradwyaeth Cadeirydd y Panel

Gallaf i S. J. Ricouto, (printiwch yr enw) gadarnhau fy mod wedi darllen yr adroddiad, a'i fod yn cynrychioli'n llwyr y farn a fynegwyd gan y Panel yn ystod ein hymarfer hap samplu ar 28 Ionawr 2019.

Llofnod: ______________________

Dyddiad: 10-4-19.

## 4.0 Camau a gymerwyd yn dilyn cyfarfod blaenorol y Panel

O ganlyniad i waith y Panel Craffu ar Warediadau y Tu Allan i'r Llys, cymerwyd y camau canlynol ers y cyfarfod diwethaf:

- Adroddodd yr Heddlu fod y polisi Hysbysiad Cosb Benodedig/Hysbysiad Cosb am Anrhefn yn cael ei adolygu. Yn y cyfarfod, trafodwyd y ffaith bod drafft wedi'i lunio a'i fod yn disgwyl cymeradwyaeth prif swyddogion. Roedd diwygiadau'n cynnwys disgresiwn swyddogion o ran y fframwaith amser ar gyfer cyhoeddi ail Hysbysiad Cosb am Anrhefn.

## 5.0 Ystyried Achosion Troseddau Rhywiol – drwgdybiedigion ifainc

Ymdriniwyd â phedwar o'r achosion ieuenctid a ystyriwyd drwy gyfrwng Datrysiad Cymunedol Ieuenctid, un drwy Rybudd Ieuenctid a dau drwy Rybudd Amodol Ieuenctid. Ystyriwyd nad oedd camau gweithredu ffurfiol o fudd i'r cyhoedd mewn saith achos. Er nad oedd y Panel yn adolygu canlyniadau o'r natur hwn fel mater o drefn, ystyriwyd y byddai cymharu achosion sydd heb eu datblygu â'r rhai sydd wedi derbyn gwarediad tu allan i'r llys yn cefnogi gwaith y Panel. Roedd asesiadau'r Aelodau fel a ganlyn:

| Asesiadau'r Aelodau | Nifer yr achosion |
|---|---|
| Priodol | 10 |
| Priodol gydag amheuon | 4 |

### 5.1 Sylwadau

Nodir isod sylwadau Aelodau'r Panel ar gyfer pob achos.

**Achos 1**

Teimlai'r Aelodau bod y canlyniad yn addas yn yr achos hwn oherwydd natur y drosedd, fodd bynnag, roedd ganddynt rai amheuon gan fod yr unigolyn wedi cyflawni trosedd debyg o'r blaen, ac nid oedd y mater hwnnw wedi'i drin.

**Asesiad y Panel: Priodol gydag amheuon**

**Achos 2**

Roedd yr aelodau'n fodlon â'r rhesymwaith o fewn y ffeil achos a bod yr unigolyn wedi cyfaddef i'r drosedd. Roedd y Panel yn fodlon bod y cymorth priodol yn cael ei roi drwy'r Datrysiad Cymunedol Ieuenctid.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 3**

Roedd gan yr aelodau rai amheuon ynghylch y canlyniad yn yr achos hwn, sef Gwarediad Adferol Ieuenctid. Roedd yr Aelodau'n teimlo bod y canlyniad yn briodol gan fod euogfarnau blaenorol gan yr unigolyn, fodd bynnag, nodwyd nad oedd yr achos hwn wedi'i gyfeirio at y Tîm Troseddau Ieuenctid, felly nid oedd yr unigolyn wedi derbyn unrhyw gymorth na chefnogaeth. Roedd yr Aelodau'n teimlo bod posibilrwydd y gallai hynny fod wedi bod yn fuddiol oherwydd bod yr unigolyn yn agored i niwed.

**Asesiad y Panel: Priodol gydag amheuon**

| |
|---|
| **Cam Gweithredu 1**<br><br>Y Tîm Troseddau Ieuenctid i adolygu achos 3 er mwyn asesu pa un ai a fyddai'r drwgdybiedig wedi elwa o ymyrraeth ganddynt. |

**Achos 4**

Roedd yr Aelodau'n fodlon â'r rhesymwaith o fewn y ffeil achos ac yn teimlo bod y canlyniad, sef nad oedd gweithredu ffurfiol o fudd i'r cyhoedd, yn briodol gan nad oedd tystiolaeth ar gael.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 5**

Roedd y Panel yn teimlo bod yr achos hwn wedi'i waredu'n briodol. Roedd yr unigolyn wedi ysgrifennu llythyr o ymddiheuriad ac yn edifar.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 6**

Penderfynodd yr Aelodau Panel fod yr achos hwn wedi'i waredu'n briodol. Nid oedd gan yr unigolyn unrhyw euogfarnau blaenorol, roedd yn edifar, ac roedd yn cydweithredu'n dda â'r Heddlu. Gan ystyried hyn oll, oherwydd lefel y digwyddiad a'r ffaith mai 14 oed oedd yr unigolyn, teimlwyd bod y canlyniad, sef nad oedd gweithredu ffurfiol o fudd i'r cyhoedd, yn briodol.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 7**

Roedd y Panel yn teimlo bod y canlyniad, sef Datrysiad Cymunedol, yn briodol ond roedd ganddynt rai amheuon. Gan mai tri oedd sgôr difrifoldeb y digwyddiad, roedd y polisi'n nodi y dylai canlyniad yr achos fod yn uwch. Fodd bynnag, roedd y Panel yn cydnabod fod teulu'r dioddefydd wedi gofyn i'r heddlu beidio mynd â'r achos ymhellach. Nododd yr aelodau fod cymorth yn cael ei roi i'r drwgdybiedig oherwydd y canlyniad, a bod hyn yn rhywbeth cadarnhaol.

**Asesiad y Panel: Priodol gydag amheuon**

**Achos 8**

Ni fynegodd y Panel unrhyw bryder ynglŷn â'r canlyniad, sef nad oedd gweithredu ffurfiol o fudd i'r cyhoedd. Nid oedd gan yr unigolyn unrhyw hanes blaenorol, roedd wedi cyfaddef i'r drosedd, ac roedd wedi gofyn am gymorth a chefnogaeth.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 9**

Penderfynodd yr Aelodau Panel fod yr achos hwn wedi'i waredu'n briodol gan fod dioddefydd y teulu wedi gofyn i'r heddlu beidio â chymryd camau gweithredu pellach ac roedd y drwgdybiedig yn derbyn cymorth gan y Tîm Troseddau Ieuenctid.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 10**

Roedd yr aelodau'n teimlo bod canlyniad yr achos hwn, sef nad oedd camau gweithredu ffurfiol o fudd i'r cyhoedd, yn briodol ac ni fynegwyd unrhyw bryderon ynglŷn â'r rhesymwaith.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 11**

Penderfynodd yr Aelodau Panel fod yr achos hwn wedi'i drin yn briodol. Fodd bynnag, nodwyd y dylid fod wedi trosglwyddo'r achos i Wasanaeth Erlyn y Goron yn gyntaf cyn iddo gael ei drin drwy'r Tîm Troseddau Ieuenctid gan mai pedwar oedd sgôr difrifoldeb yr achos. Ar nodyn gadarnhaol, nodwyd fod yr unigolyn yn gweithio'n agos â'r Tîm Troseddau Ieuenctid ac yn derbyn cymorth.

**Asesiad y Panel: Priodol gydag amheuon**

**Achos 12**

Roedd y Panel yn fodlon â chanlyniad y gwarediad hwn ac yn teimlo bod addysg a dysgu wedi'i roi i'r unigolyn cysylltiedig.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 13**

Canlyniad yr achos hwn oedd nad oedd camau gweithredu ffurfiol o fudd i'r cyhoedd. Roedd yr Aelodau'n teimlo bod hyn yn briodol ac ni fynegwyd unrhyw bryderon ganddynt mewn perthynas â'r rhesymwaith. Rhoddwyd cymorth a geiriau o gyngor i'r unigolyn dan sylw.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 14**

Penderfynodd yr Aelodau Panel fod yr achos hwn wedi'i waredu'n briodol. Nid oedd gan yr unigolyn unrhyw euogfarnau blaenorol, ac roedd wedi ysgrifennu llythyr o ymddiheuriad.

**Asesiad y Panel: Priodol**

## 6.0 Ystyried Achosion Meddiant Cyffuriau Rheoledig (Canabis) – drwgdybiedigion sy'n oedolion

Adolygodd Aelodau'r Panel naw achos oedolyn lle'r ymdriniwyd â'r unigolion drwy Hysbysiad Cosb Benodol am feddiant cyffuriau rheoledig (canabis). Roedd asesiadau'r Aelodau fel a ganlyn:

| Asesiadau'r Aelodau | Nifer yr achosion |
|---|---|
| Priodol | 5 |
| Priodol gydag amheuon | 2 |
| Amhriodol | 2 |

### 6.1 Sylwadau

Nodir isod sylwadau Aelodau'r Panel ar gyfer pob achos.

**Achos 15**

Er bod gan yr unigolyn euogfarnau blaenorol, oherwydd mai ychydig bach o ganabis a ddarganfuwyd, roedd yr Aelodau Panel yn teimlo bod yr achos hwn wedi'i waredu'n briodol.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 16**

Er bod yr unigolyn wedi derbyn rhybudd canabis o'r blaen, oherwydd mai ychydig bach o ganabis a ddarganfuwyd, roedd yr Aelodau Panel yn teimlo bod yr achos hwn wedi'i waredu'n briodol.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 17**

Mynegodd yr Aelodau bryder ynghylch canlyniad yr achos hwn. Nodwyd fod yr achos hwn wedi'i gofnodi fel drwy drosedd pan ddylai fod wedi'i gofnodi fel un. Nodwyd hefyd y dylid, o bosibl, fod wedi profi'r powdwr anhysbys y daethpwyd o hyd iddo gyda'r canabis er mwyn pennu difrifoldeb y drosedd cyn dod â'r achos i ben, er mai ychydig bach o'r powdwr hwn y daethpwyd o hyd iddo.

**Asesiad y Panel: Priodol gydag amheuon**

**Achos 18**

Er mai ychydig bach o ganabis oedd ganddi yn ei meddiant, roedd y Panel yn teimlo bod angen cymorth pellach ar yr unigolyn gan ei bod hi'n feichiog a bod plant ifainc o'i chwmpas pan gafodd ei dal â chanabis yn ei meddiant. Ni roddir cymorth drwy gyhoeddi Hysbysiad Cosb am Anrhefn.

**Asesiad y Panel: Priodol gydag amheuon**

**Achos 19**

Ni fynegodd y Panel unrhyw bryderon mewn perthynas â chanlyniad yr achos hwn gan y cyhoeddwyd yr Hysbysiad Cosb am Anrhefn yn unol â'r polisi.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 20**

Penderfynodd yr Aelodau Panel fod yr achos hwn wedi'i waredu'n briodol gan nad oedd gan y drwgdybiedig unrhyw euogfarnau blaenorol.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 21**

Teimlai'r Aelodau bod y gwarediad yn yr achos hwn yn amhriodol. Roedd gan yr unigolyn 70 euogfarn flaenorol, ac roedd pedwar o'r rhain yn gysylltiedig â meddiant cyffuriau. Cyfaddefodd yr unigolyn yn llawn i'r drosedd, ac roedd y Panel yn teimlo y dylai'r unigolyn fod wedi cael ei gyhuddo. Cadarnhaodd cynrychiolydd dalfeydd yr Heddlu a oedd yn bresennol yn y cyfarfod fod y swyddog yn yr achos hwn wedi derbyn adborth cyn y cyfarfod.

**Asesiad y Panel: Amhriodol**

**Achos 22**

Daeth y Panel i'r casgliad bod yr achos hwn wedi cael ei waredu'n amhriodol. Roedd yr unigolyn wedi cyflawni troseddau meddiant cyffuriau o'r blaen, gan gynnwys cyffuriau Dosbarth A. Roedd y Panel yn teimlo nad oedd yr achos wedi'i ddwysau'n briodol.

**Asesiad y Panel: Amhriodol**

**Cam Gweithredu 2**

Diwygio'r siart llif sy'n ymwneud â phenderfyniadau o ran Hysbysiadau Cosb am Anrhefn er mwyn egluro ystyriaeth o euogfarnau blaenorol.


**Achos 23**


Roedd y Panel yn teimlo bod canlyniad yr achos hwn yn briodol ac yn unol â'r polisi Hysbysiad Cosb am Anrhefn.

**Asesiad y Panel: Priodol**


## 7.0 Asesiadau'r Panel hyd yn hyn

**Mae'r graff isod yn dangos asesiadau'r Panel o'r achosion a ystyriwyd yn y cyfarfod diweddaraf.**







Ers Ebrill 2013 mae'r Panel wedi ystyried amrywiaeth o waredladau, fel y gwelir yn y graff isod.





O'r 279 o achosion a adolygwyd rhwng Ebrill 2013 ac Ionawr 2019, cafodd 56% eu hasesu'n briodol, 23% yn amhriodol, 19% yn briodol gydag amheuon a methodd y Panel â dod i ganlyniad mewn 2% o'r achosion.


Ar y cyfan roedd cynnydd yn nifer yr achosion a ystyriwyd gan y Panel yn waredladau priodol. Gellir gweld y newid hwn dros amser yn y graff isod.




Mae'r graff isod yn dangos y dadansoddiad fesul math o drosedd fel canran o'r achosion a ystyriwyd rhwng Tachwedd 2013 a Ionawr 2019.




Mae'r graff canlynol yn dangos y nifer gwirioneddol o achosion a aseswyd o fewn pob math o drosedd a barn y Panel yn eu cyfarfodydd rhwng Tachwedd 2013 ac Ionawr 2019.




### 7.1 Arfer da

Nodwyd yr ymarfer da canlynol o ganlyniad i waith y Panel yn ystod y chwarter hwn:

- Nododd y panel welliant yn eu hadolygiad o achosion troseddau rhywiol ieuenctid. Teimlai'r panel fod 10 o'r 14 achos wedi'u gwaredu'n briodol o'i gymharu â 7 o 16 pan gafodd ei adolygu diwethaf ym mis Ionawr 2017.

### 7.2 Meysydd sydd angen Gwelliant

Roedd un maes penodol ar gyfer gwella a nodwyd o ganlyniad i waith y Panel y chwarter hwn:

- Nodwyd fod angen diwygio siart llif sy'n ymwneud â phenderfyniadau ynghylch Hysbysiadau Cosb am Anrhefn er mwyn egluro ystyriaeth o euogfarnau blaenorol.

## 8.0 Ffocws y Panel yn y Dyfodol

Cafwyd trafodaeth ynghylch pa faes y dylai'r Panel ei ystyried nesaf. Fel y gofynnwyd amdano yn y cyfarfod diwethaf, cyflwynwyd ystadegau troseddau cyllyll Dyfed-Powys i'r Panel. O ganlyniad i drafodaeth ar y data, gan fod nifer yr achosion yn isel ac yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol, penderfynwyd y byddai achosion troseddau cyllyll yn cael eu hadolygu yn y dyfodol. Edrychodd y Panel ar y pynciau yr oeddent wedi'u hadolygu mewn cyfarfodydd blaenorol a chanran y canlyniadau a roddwyd a phenderfynwyd y byddai achosion cam-drin domestig yn cael eu hadolygu yn y cyfarfod nesaf.

## 9.0 Materion eraill yn codi

Diolchodd y Panel i Nick Powell am ei amser fel Cadeirydd ac am ei gyfraniad gwerthfawr i waith y Panel. Penderfynwyd mai Jayne Picouto, Cadeirydd Mainc Sir Gaerfyrddin, fyddai Cadeirydd newydd y Panel.